# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## ASTUDIO'R CYFRYNGAU

## HAF 2015

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2015 TGAU Astudio'r Cyfryngau. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

| | **Tudalen** |
|---|---|
| Uned 1 | 1 |

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU ASTUDIO'R CYFRYNGAU – UNED 1**
**CYNLLUN MARCIO HAF 2015**

**ADRAN A:**

**Meddwl am y Cyfryngau – Ymchwilio i *Hysbysebu mewn Print* [40]**

**1.** Edrychwch ar yr hysbyseb ar gyfer *Pepe Jeans.*

(a) Nodwch **ddau** leoliad sy'n cael eu defnyddio yn yr hysbyseb. [2]

- Lleoliadau allanol
- Ardal breswyl yng nghanol dinas, tref fawr, nodweddion pensaernïol, Rhaglywiaethol, Sioraidd, dinas Brydeinig
- Ardal siopa dinas fewnol, ardal gaffis/tai bwyta, hen ran o dref neu ddinas, strydoedd coblau, Llundain
- Lleoliadau tymhorol

(b) Esboniwch yn fyr pam mae'r lleoliadau hyn yn cael eu defnyddio. [8]

Gall atebion gynnwys cyfeirio at y canlynol:

- Dinasoedd
- Pensaernïaeth/adeiladau
- Siopau a thai bwyta
- Naratifau yn gysylltiedig â lleoliadau
- Ffasiwn/arddull yn gysylltiedig â lleoliadau
- Delwedd brand
- Apêl i gynulleidfaoedd/defnyddwyr
- Cynrychioliad o le, rhywedd, oedran ayb.

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-2)** | Disgrifiad sylfaenol o leoliadau. Marc uwch am ddisgrifiad a sylw syml. |
| **Lefel 2 (3-4)** | Esboniad o leoliadau yn dod i'r golwg. Marc uwch ar gael am esboniad dilys o pam y defnyddiwyd lleoliadau. |
| **Lefel 3 (5-6)** | Esboniad da o pam y defnyddiwyd lleoliadau. Am farc uwch, bydd iaith y cyfryngau yn dod i'r golwg. |
| **Lefel 4 (7-8)** | Esboniad rhagorol o pam y defnyddiwyd lleoliadau. Marc uwch am esboniadau soffistigedig o pam y defnyddiwyd lleoliadau. |

© WJEC CBAC Cyf.

**2.** Edrychwch ar yr hysbyseb ar gyfer *Apple*.

Esboniwch sut mae'n apelio at gynulleidfaoedd. [10]

Gall atebion gynnwys cyfeirio at y canlynol:

- Codau technegol – saethiad camera, ongl, safbwynt
- Codau gweledol – gwisg, iaith y corff, ystum, lleoliad, lliw
- Testun – iaith, cynnwys
- Naratif – rhediad stori a themâu, cymeriadau
- Cynrychioliad: ieuenctid, rhywedd
- Delwedd brand
- Cynulleidfa darged

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-3)** | Disgrifiad sylfaenol o'r hysbyseb. Am farciau uwch bydd disgrifiad a sylw syml. |
| **Lefel 2 (4-5)** | Esboniad o apeliadau i gynulleidfaoedd yn dod i'r golwg. Marc uwch am esboniad dilys o sut mae'r hysbyseb yn apelio at gynulleidfaoedd. |
| **Lefel 3 (6-7)** | Esboniad cadarn o apeliadau i gynulleidfaoedd. Am farc uwch, rhoddir esboniad mwy manwl a phriodol. |
| **Lefel 4 (8-10)** | Esboniad rhagorol o apeliadau i gynulleidfaoedd. Ym mhen ucha'r lefel bydd esboniad soffistigedig o apeliadau i gynulleidfaoedd. |

© WJEC CBAC Cyf.

**3.** Esboniwch sut mae *naill* ai dynion *neu* fenywod yn cael eu cynrychioli yn yr hysbysebion mewn print rydych chi wedi eu hastudio (*nid* y Deunydd Adnoddau).[10]

Gall atebion gynnwys cyfeirio at y canlynol:

- Codau technegol
- Codau gweledol
- Stereoteipio
- Cynrychioliadau cadarnhaol/negyddol
- Herio stereoteipiau

Rhowch uchafswm o 5 marc am esboniad o gynrychioliad mewn hysbysebion mewn print yn gyffredinol.

Rhowch uchafswm o 3 marc os nad oes cyfeiriad at hysbysebion mewn print.

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-3)** | Disgrifiad sylfaenol o sut mae dynion neu fenywod yn cael eu dangos mewn hysbysebion mewn print. Marciau uwch am ddisgrifiad mwy manwl gan gyfeirio at hysbysebion mewn print a astudiwyd. Efallai bydd ymgeiswyr ar y lefel hon yn defnyddio'r deunydd adnoddau. Rhaid i unrhyw ateb sy'n seiliedig ar y deunydd adnoddau beidio â chael mwy na 3 marc. |
| **Lefel 2 (4-5)** | Disgrifiad o sut mae dynion neu fenywod yn cael eu cynrychioli mewn hysbysebion mewn print a astudiwyd, gyda chyfeirio tebygol at wisg, iaith y corff, ystum neu weithgareddau a wneir yn yr hysbysebion. Marc uwch am gysylltu'r disgrifiad â syniadau syml o gynrychioliad, e.e. rolau, stereoteipiau. |
| **Lefel 3 (6-7)** | Esboniadau mwy manwl o gynrychioliadau dynion neu fenywod mewn hysbysebion priodol mewn print. Defnyddir iaith-y-cyfryngau berthnasol i ddangos cynrychioliad. Cyfeirio at stereoteipio, rolau, swyddogaethau, ayb. am farc uwch. |
| **Lefel 4 (8-10)** | Esboniad rhagorol o sut mae dynion neu fenywod yn cael eu cynrychioli yn yr enghraifft a ddewiswyd. Gwneir defnydd hyderus o iaith y cyfryngau i ddangos cynrychioliadau. Am farciau uwch/llawn, bydd esboniad soffistigedig gyda dealltwriaeth o'r ffordd mae cynrychioliadau yn herio neu'n atgyfnerthu portreadau nodweddiadol o ddynion neu fenywod. |

© WJEC CBAC Cyf.

**4.** Esboniwch pam mae cylchgronau yn cynnwys hysbysebion. [10]

Gall atebion gynnwys:

- Darparu derbyniadau ar gyfer cylchgronau drwy werthu lle i hysbysebu
- Targedu cynulleidfaoedd penodol drwy rywedd, oedran, dosbarth, ffordd o fyw a diddordebau, ethnigrwydd, crefydd ac ardal
- Helpu cylchgronau i ymddangos yn fwy cynhwysfawr yn y sylw a roddir i storïau ac erthyglau
- Apêl storïau a delweddau hysbysebu sgleiniog
- Hysbysebion ar ffurf cynnwys golygyddol
- Erthyglau nodwedd sy'n hysbysebu
- Cynigion neilltuedig i'r darllenwyr
- Mae gan hysbysebu mewn cylchgrawn oes silff hirach na hysbysebu ar y we
- Mae brandiau o safon uwch yn ychwanegu teimlad o foeth

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-3)** | Esboniad minimol o pam mae cylchgronau yn cynnwys hysbysebion. Am farciau uwch, esboniad sylfaenol. |
| **Lefel 2 (4-5)** | Esboniad o pam mae cylchgronau yn cynnwys hysbysebion yn dod i'r golwg. Marc uwch am fwy o fanylder a/neu esboniad dilys. |
| **Lefel 3 (6-7)** | Esboniad cadarn o pam mae cylchgronau yn cynnwys hysbysebion. Am farc uwch, esboniad mwy manwl a phriodol. |
| **Lefel 4 (8-10)** | Esboniad rhagorol o pam mae cylchgronau yn cynnwys hysbysebion. Teimlad hyderus o faterion sefydliadol. Marciau uwch/llawn am esboniadau mwy soffistigedig. |

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B

### Meddwl am y Cyfryngau: Cynllunio *Hysbysebu ar y Teledu*

**[40]**

**5.** Crëwch hysbyseb deledu ar gyfer brand newydd o **naill ai** jîns **neu** ffôn symudol.

Cwblhewch y tasgau canlynol:

**TASG 1.** Dewiswch enw ar gyfer y brand newydd o **naill ai** jîns **neu** ffôn symudol.
Esboniwch yn fyr pam rydych chi wedi dewis yr enw hwn. [4]

| | |
|---|---|
| **1 marc** | Enw sylfaenol neu ddigonol. |
| **2 farc** | Enw effeithiol, da, sy'n briodol ar gyfer y brand. |
| **1 marc ychwanegol** | Esboniad sylfaenol o'r enw a ddewiswyd. |
| **2 farc ychwanegol** | Esboniad da. Esboniad manwl o'r enw a ddewiswyd gyda theimlad clir o gynodiadau brand. |

**TASG 2.** Awgrymwch rediad stori ar gyfer eich hysbyseb. [6]

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-2)** | Rhediad stori sylfaenol. Marc uwch am rywfaint o fanylder yn dod i'r golwg. |
| **Lefel 2 (3-4)** | Rhediad stori priodol. Am farciau uwch, yn fwy manwl gyda rhywfaint o deimlad o ddechrau, canol a diwedd i'r rhediad stori a rhywfaint o gyfeirio at y cynnyrch. |
| **Lefel 3 (5)** | Rhediad stori priodol a manwl gyda strwythur clir a theimlad o'r cynnyrch. |
| **Lefel 4 (6)** | Rhediad stori rhagorol gyda theimlad hyderus o'r cynnyrch sy'n cael ei hysbysebu a brandio'r cynnyrch. |

© WJEC CBAC Cyf.

**TASG 3** Crëwch fwrdd stori o 6-12 ffrâm ar gyfer eich hysbyseb. [10]

Gall byrddau stori gynnwys:

- Saethiad camera – math, ongl, ayb.
- Symudiad camera – tremio, gogwyddo, ayb.
- Sain – deialog, effeithiau sain, cerddoriaeth
- Teimlad o ddilyniant cydlynol
- Teimlad o gonfensiynau hysbysebion, e.e. amlygu'r cynnyrch, cymeradwyo gan berson/bobl enwog, slogan, brandio, ayb.

**Rhowch uchafswm o 5 marc os nad yw'r bwrdd stori'n cynnwys unrhyw ddisgrifiadau ysgrifenedig.**

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-3) 1** | Gallu minimol i gyflwyno bwrdd stori, gyda dim ond ychydig o fframiau wedi'u cwblhau. |
| **(2-3)** | Gallu sylfaenol i gyflwyno bwrdd stori, gyda rhywfaint o deimlad o ddilyniant. Ystod gyfyngedig o saethiadau camera wedi'i defnyddio. |
| **Lefel 2 (4-5) 4** | Gallu syml i gyflwyno bwrdd stori gyda theimlad cliriach o ddilyniant ac amrywiaeth ehangach o saethiadau camera wedi'i dewis. |
| **5** | Rhywfaint o allu i gyflwyno bwrdd stori gyda rhywfaint o amrywiaeth o saethiadau camera wedi'i ddefnyddio a theimlad o ddilyniant. Mae confensiynau hysbyseb yn amlwg yn dechrau dod i'r golwg. |
| **Lefel 3 (6-7) 6** | Gallu cadarn i gyflwyno bwrdd stori gydag ystod o saethiadau camera wedi'i defnyddio a theimlad clir o ddilyniant. Bydd confensiynau hysbyseb yn amlwg yn gyffredinol. |
| **7 marc** | Gallu hyderus i gyflwyno bwrdd stori gydag ystod eang o saethiadau, teimlad da o ddilyniant a sain briodol. Bydd confensiynau hysbyseb yn amlwg yn glir. |
| **Lefel 4 (8-10)** | Gallu rhagorol i gyflwyno bwrdd stori gyda theimlad cadarn o ddilyniant, ystod effeithiol o saethiadau camera a sain briodol iawn. Bydd confensiynau hysbyseb yn cael eu defnyddio'n greadigol. |
| **(9-10)** | Gallu soffistigedig i gyflwyno bwrdd stori gyda defnydd effeithiol iawn o gamera a sain. Bydd confensiynau hysbyseb yn cael eu defnyddio gyda chreadigrwydd go iawn i greu teimlad o'r brand. |

© WJEC CBAC Cyf.

**Tasg 4** Esboniwch sut bydd eich hysbyseb yn denu cynulleidfaoedd. [10]

Gall atebion gyfeirio at y canlynol:

- Cynulleidfa darged
- Ceisio denu cynulleidfaoedd drwy gymeriadau, lleoliadau, codau gweledol, codau technegol, sain, ayb.
- Creu hunaniaeth brand ar gyfer y cynnyrch
- Cynrychioliadau
- Naratifau
- Confensiynau *genre*

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-3)** | Esboniad minimol o sut bydd yr hysbyseb yn denu cynulleidfa. Am farciau uwch, esboniad sylfaenol. |
| **Lefel 2 (4-5)** | Esboniad o sut bydd yr hysbyseb yn denu cynulleidfa yn dod i'r golwg gyda chyfeirio at gymeriadau, lleoliadau, y bwrdd stori a'r cynnyrch. |
| **Lefel 3 (6-7)** | Esboniad cadarn o sut bydd yr hysbyseb yn denu cynulleidfaoedd drwy ystod o apeliadau fel saethiadau camera, sain, cerddoriaeth, codau gweledol a naratif, gan ddefnyddio iaith y cyfryngau. Marc uwch am esboniadau mwy hyderus a chyfeirio clir at sut bydd hyn yn denu cynulleidfa. |
| **Lefel 4 (8-10)** | Esboniad rhagorol o sut bydd yr hysbyseb yn denu cynulleidfaoedd drwy ystod eang o apeliadau fel codau technegol a gweledol, naratif a chynrychioliad, gan ddefnyddio iaith-y-cyfryngau hyderus. Am farciau uwch, bydd esboniadau yn soffistigedig, gan egluro sut bydd y confensiynau *genre*, y naratif a'r cynrychioliadau a ddewiswyd yn creu delwedd brand ar gyfer y cynnyrch sy'n cael ei hysbysebu, a fydd â hunaniaeth ac atyniad clir i gynulleidfaoedd. |

© WJEC CBAC Cyf.

**Tasg 5** Dewiswch **un** hysbyseb deledu rydych chi wedi ei hastudio. Esboniwch sut mae'n hyrwyddo'r cynnyrch. [10]

Gall atebion gyfeirio at y canlynol:

- Codau technegol a gweledol
- Sain
- Naratif
- Cynrychioliad
- Cymeradwyo gan berson/bobl enwog
- Hiwmor
- Slogan
- Hunaniaeth brand
- Dyhead
- Rhyngdestuniaeth
- Pwynt Gwerthu Unigryw

**Rhowch uchafswm o 5 marc os na thrafodir unrhyw hysbyseb benodol.**

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1-3)** | Disgrifiad sylfaenol o hysbyseb deledu a astudiwyd, gyda chyfeirio sylfaenol at sut mae'n hyrwyddo'r cynnyrch am farciau uwch. |
| **Lefel 2 (4-5)** | Esboniad syml o sut mae hysbyseb deledu yn hyrwyddo'r cynnyrch, gyda chyfeirio tebygol at naratif, cymeriadau a sain. |
| **Lefel 3 (6-7)** | Esboniad cadarn o sut mae hysbyseb deledu yn hyrwyddo'r cynnyrch, gyda chyfeirio tebygol at *genre*, naratif, y gynulleidfa darged ac apeliadau, gan ddefnyddio iaith y cyfryngau. Am farciau uwch, esboniad da gyda defnydd hyderus o iaith y cyfryngau wrth drafod apeliadau'r hysbyseb, sut mae'n targedu ei chynulleidfa a sut mae'r cynnyrch yn cael ei hyrwyddo. |
| **Lefel 4 (8-10)** | Esboniad rhagorol o sut mae hysbyseb deledu yn hyrwyddo'r cynnyrch neu'n creu delwedd brand ar gyfer y cynnyrch drwy ei helfennau testunol a'i chynrychioliadau. Am farciau uwch esboniadau soffistigedig o sut mae'r cynnyrch yn cael ei hyrwyddo, gan gyfeirio at ystod eang o dechnegau. Efallai bydd cyfeirio at ryngdestuniaeth â thestunau eraill a sut mae'r cynhyrchwyr yn ceisio creu delwedd brand a phwynt gwerthu unigryw.. |



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

Ⓗ WJEC CBAC Cyf.